# Y Busnes o Ailgylchu – Gweminarau

## Sector Lletygarwch 4 Tachwedd 2024 3:30 pm

## Cwestiynau ac Atebion

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno atebion WRAP Cymru i'r cwestiynau a ofynnwyd gan fynychwyr yn ystod y gweminar Sector Lletygarwch.

Cod Ymarfer – Casglu Deunyddiau Gwastraff ar wahân i Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU

Canllawiau y Busnes o Ailgylchu Cymru ar gyfer holl weithleoedd (wrapcymru.org.uk)

| | |
|---|---|
| Pam mae'r rheoliad newydd yn ei gwneud yn ofynnol inni wahanu ein hailgylchu yn hytrach na gwneud ailgylchu cymysg?<br><br>Mae sicrhau bod y deunyddiau cywir yn cael eu rhoi yn y biniau cywir yn anodd iawn i feysydd carafanau lle rydym yn dibynnu ar ein cwsmeriaid i ddilyn y rheolau'n gywir. | Mae'r Rheoliadau'n nodi'r gofynion i wahanu yng Nghymru gyda'r nod o sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli mewn modd sy'n hybu ailgylchu o ansawdd uchel.<br>Mae deunyddiau gwastraff ailgylchadwy sy'n cael eu casglu ynghyd mewn ffrydiau cymysg neu "gydgymysg" ac yna'n cael eu didoli wedyn yn arwain at groeshalogi a hefyd lefelau uchel o ddeunydd nas targedir yn cael ei gymysgu gyda'r ailgylchu. Mae hyn yn ei dro yn lleihau ansawdd y deunydd eilgylch yn sylweddol ynghyd â gostwng y lefelau o ailgylchu a gyflawnir.<br>Weithiau gall yr halogiad fod mor ddifrifol fel bod yn rhaid gwrthod y llwyth cyfan a'i anfon i'w losgi neu i dirlenwi, gan golli'r holl fanteision ailgylchu. Drwy gadw'r ailgylchu ar wahân, mae'r dystiolaeth yn dangos ei fod yn arwain at lai o halogiad, cyfraddau uwch o ailgylchu a deunydd ailgylchu o ansawdd uwch a all fynd yn ôl i'r economi wedyn.<br>Mae Adran 3 o'r Cod yn egluro hyn yn fanylach.<br><br>Mae posteri ar gael i'w lawrlwytho o wefan Y Busnes o Ailgylchu sy'n rhestru'n glir pa eitemau y gellir eu hailgylchu. Cyn bo hir bydd deunyddiau ar gael ar y wefan i helpu i ddarparu gwybodaeth i'ch gwesteion ar sut y gallant gydymffurfio â'r gofynion.<br><br>Bydd angen i chi sicrhau bod y biniau ailgylchu wedi'u labelu'n glir, bod y system ailgylchu sydd ar waith yn cael ei chyfleu i staff ac ymwelwyr a bod digon o gynwysyddion yn cael eu darparu i'ch staff a'ch gwesteion allu eu defnyddio'n gywir trwy ddefnyddio'r asedau newydd.<br><br>Fe'ch cynghorir i fonitro effeithiolrwydd eich system ailgylchu a gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen i sicrhau fod y system yn gweithio'n dda. Argymhellir hefyd eich bod yn siarad â'ch casglwr gwastraff ynghylch eu lefel goddefiant halogiad a'r gweithdrefnau sydd gan y casglwr ar gyfer ymdrin â halogiad. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Cod Ymarfer (paragraff 7.37) yn cynnwys rhagor o fanylion ar y camau yr argymhellir ichi eu cymryd wrth ymdrin â halogiad. |
| Cyfrifoldeb pwy yw darparu biniau allanol ar wahân, fel mewn meysydd parcio neu safleoedd gyrru drwodd – y gweithredwr neu'r tirfeddiannwr? | Y deiliad sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r rheoliadau a chydymffurfio â'r gofynion i wahanu.<br>Gweler adran 5.8 o'r Cod Ymarfer |
| Cwestiwn i Sarah Ivory: A yw gwastraff yn cael ei wahanu yn eich ystafelloedd gwesty ynteu pan fydd y glanhawyr yn ei gasglu? | Ateb gan Sarah Ivory: Yn ein gwestai, gofynnir i westeion adael unrhyw ddeunydd ailgylchadwy ar yr ochr i'r staff cadw tŷ gael ei gasglu ar wahân. |
| Sut fydd y recordiad a'r sleidiau o'r gweminar hwn yn cael eu rhannu? | Bydd e-bost yn cael ei anfon at yr holl fynychwyr a gofrestrodd i fynychu'r gweminar gan gynnwys recordiad o'r gweminar, y dec sleidiau a'r atebion i'r cwestiynau hyn.<br>Byddant hefyd ar gael ar dudalen Adnoddau gwefan y Busnes o Ailgylchu. |
| Gyda chwpanau a Tetra Pak wedi'u cynnwys mewn biniau ailgylchu, sut maent yn cael eu gwahanu yn y cyfleusterau gwastraff, i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn gywir? | Gall cyd-gasglu gwastraff plastig, metel, cartonau a phecynnau cyfansawdd ffibr-blastig tebyg eraill ailgylchadwy mewn un ffrwd hwyluso ailgylchu o ansawdd uchel oherwydd mae'n bosibl gwahanu'r deunyddiau gwastraff yn effeithiol oddi wrth ei gilydd gan ddefnyddio offer didoli syml ar ôl eu casglu. Mae'n bwysig gwirio gyda'ch cynhyrchydd gwastraff. |
| Pa ddull yr ydych chi'n argymell i fusnesau ei ddefnyddio ar gyfer creu deunyddiau ailgylchu glanach, a hynny heb gost neu am gost fach iawn? | Dylid rinsio deunyddiau i'w hailgylchu fel plastig, metel a chartonau, a allai fod wedi'i halogi â bwyd neu ddiod, cyn ei roi yn y cynhwysydd ailgylchu.<br>Dylid rhoi cardbord sydd wedi'i halogi â bwyd neu ddiod yn y gwastraff cyffredinol.<br>Sicrhewch fod y deunyddiau'n cael eu cadw ar wahân i'w gilydd, h.y. fel nad yw unrhyw fwyd neu ddiod sy'n weddill ar eitemau plastig yn cymysgu ag unrhyw bapur neu gardbord.<br><br>Mae'r Cod Ymarfer yn nodi na ddylai'r ailgylchu gynnwys halogiad sylweddol. Byddem yn eich cynghori i drafod halogiad gyda'r casglwr gwastraff i weld beth sydd angen ei wneud. |
| Sut ydych chi'n delio â halogiad hylifol o gwpanau tafladwy yn cael eu rhoi mewn bin ailgylchu? | Os oes gennych lawer o gwpanau a gwastraff hylifol yn eich biniau gallech ddarparu bin hylif wrth ymyl cynhwysydd cwpan.<br>Dylech siarad â'ch contractwr gwastraff am y lefel glendid sydd ei angen arno a'r atebion y gallent efallai eu darparu. |
| A ddylai busnesau olchi eitemau gwastraff cyn eu gwaredu? | Mae'r Cod Ymarfer yn nodi bod yn rhaid i chi sicrhau bod yr eitemau deunydd pacio a roddir ym mhob ffrwd gwastraff ailgylchadwy yn wag o'u cynnwys a'u bod yn lân. Mae angen i eitemau eraill nad ydynt yn ddeunydd pacio fod yn rhydd o halogiad sylweddol.<br><br>Mae graddau'r halogiad derbyniol yn debygol o amrywio yn seiliedig ar ofynion gwahanol ailbroseswyr a dylid dilyn eu gofynion i osgoi sefyllfa lle mae casglwyr gwastraff yn gwrthod llwythi |

| | |
|---|---|
| | halogedig. Dylai eich casglwr gwastraff allu rhoi cyngor ar hyn.<br><br>Y cyngor i ddeiliaid tai yw rinsio tuniau ac ati, ac efallai mai dyna'r cwbl sydd ei angen. |
| A ellir dal i roi gwastraff bwyd wedi'i ddad-ddyfrio yn y bin gwastraff bwyd? | Ni ellir defnyddio offer gwaredu gwastraff bwyd (er enghraifft peiriannau mwydo) neu fathau eraill o offer trin gwastraff bwyd (er enghraifft **dad-ddyfrio** neu dreulwyr ensymau) mewn eiddo annomestig i ollwng gwastraff bwyd neu hylif sy'n deillio o wastraff bwyd i ddraen neu garthffos. |
| Cymryd yn ganiataol bod rheoliadau ailgylchu yn berthnasol i wastraff a gynhyrchir ar y safle yn unig yn hytrach na chan gwsmeriaid sy'n dod â gwastraff arall i'r safle | Bydd yr holl wastraff a gynhyrchir ar y safle, waeth beth fo ffynhonnell y deunydd gwastraff, yn destun y gofynion i wahanu. |
| Beth sy'n digwydd i leihau gwastraff yn y gadwyn gyflenwi gan nad ydym yn gweld unrhyw leihad yng nghyfaint na natur deunydd pacio o'r gadwyn gyflenwi? | Ar hyn o bryd mae sbardunau polisi a deddfwriaethol ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith ledled y DU a fydd yn ceisio mynd i'r afael â deunyddiau pacio a gynhyrchir ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi.<br><br>Da chi, cynhaliwch sgwrs â'ch cyflenwyr i weld a oes unrhyw botensial i gydweithio i leihau gwastraff yn y gadwyn gyflenwi, h.y. deunydd pacio ar gyfer cludo y gellir ei ddychwelyd. |
| Mae'r rhan fwyaf o wastraff a grëir ar safle digwyddiad agored yn cael ei greu gan y cyhoedd ac nid gan y trefnwyr/contractwyr.<br><br>Pwy sy'n gyfrifol am y gwastraff a'r ailgylchu yn y biniau sbwriel ar y stryd a ddefnyddir a'r gwastraff a ddaw o safleoedd bwyd cyflym sy'n gweithredu o fewn safle digwyddiad agored pan fydd ffyrdd ar gau? | Fel trefnydd y digwyddiad, chi sy'n gyfrifol am yr holl wastraff a gynhyrchir ar safle'r digwyddiad, cynnyrch y cyhoedd, contractwyr, gwerthwyr a threfnwyr.<br><br>Nid yw unrhyw wastraff sy'n mynd i finiau sbwriel stryd y mae'r Awdurdod Lleol yn ei reoli yn dod o dan ofynion y gyfraith ailgylchu yn y gweithle.<br><br>Byddai'n ddoeth i drefnydd y digwyddiad osod biniau ychwanegol o amgylch yr ardal lle disgwylir y bydd nifer uchel o ymwelwyr â'r digwyddiad a fyddai angen biniau ar wahân ar gyfer ailgylchu yn ogystal â gwastraff cyffredinol.<br><br>Nid oes gofyniad penodol i ddidoli cyn casglu.<br>Fodd bynnag, mae angen i chi gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y deunydd a gesglir wedi'i halogi cyn lleied â phosibl. Fodd bynnag, os bydd y biniau digwyddiad yn cael eu halogi'n ddrwg, bydd angen i chi drafod hyn gyda'ch casglwr gwastraff.<br><br>Dylech hefyd adolygu beth arall y gallwch ei wneud i wella cydymffurfiaeth â'r gofynion i wahanu.<br>Mae Adran 7.7 o'r Cod Ymarfer yn cynnwys rhagor o wybodaeth am halogiad. |

| | |
|---|---|
| | Byddem yn eich cynghori i gynnwys rhywbeth ar reoli gwastraff a'r gofynion gwahanu o fewn cyfathrebiadau sydd gennych ag unrhyw gontractwyr a stondinwyr ac ystyried ei gynnwys mewn unrhyw gontractau. |